Cynllun Gweithredu Ysgolion Dim Datgoedwigo

Mae pum amcan y mae angen i ysgol eu gwneud er mwyn ennill Gwobr Ysgol Dim Datgoedwigo.

1 Dysgu

Dysgwch am goedwigoedd trofannol a datgoedwigo:

- Pwy a beth sy'n byw yn y goedwig?
- Pa gynnyrch bob dydd sy'n dod ohonynt?
- Beth allwn ni ei wneud i warchod coedwigoedd?

Gall hyn fod drwy brosiect dosbarth neu weithdy Maint Cymru.



2 Ymchwilio

Ceisiwch ddarganfod pa gynnyrch sy'n risg i goedwigoedd sydd yn eich ysgol.

Gallai'r rhain amrywio o'r cynhwysion yn eich prydau ysgol i'r papur rydych chi'n ysgrifennu arno. Defnyddiwch y **Cardiau Gwybodaeth** i ddysgu mwy am bob cynnyrch.

Cofnodwch eich canfyddiadau yn defnyddio ein templedi **Beth sydd yn eich ysgol?**

3 Ysbrydoli

Dewch yn Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo, ac ysbrydoli eraill i weithredu. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd, e.e.:

- Digwyddiad cymunedol neu wasanaeth ysgol
- Drama neu ffilm yn adrodd hanes coedwigoedd trofannol a datgoedwigo
- Erthygl ar gyfer papur newydd lleol neu flog

Penderfyniad chi yw'r fformat a gallwch fod mor greadigol ag yr hoffech.

4 Gweithredu

Mae'n amser defnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar newid.

Dyma rai enghreifftiau o'r pethau allech chi eu gwneud:

- Annog eich athrawon i ddefnyddio coffi Masnach Deg yn eu hystafell staff
- Holi eich ysgol ynglŷn â chyrchu papur a cherdyn wedi'u hailgylchu gan y Cyngor Stiwardiaeth Coed
- Trefnu bod llyfrau yn cael eu cyfnewid i leihau prynu o'r newydd
- Ysgrifennu at eich cyngor lleol am y cynhwysion sy'n peri risg i goedwigoedd yn eich prydau ysgol
- Gwahodd eich cynghorwyr lleol neu'ch Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru) i'ch ysgol i gael cyfarfod, fel y gallwch gyflwyno eich canfyddiadau
- Ysgrifennu at eich archfarchnad leol am y cynnyrch sy'n peri risg i goedwigoedd, a gofyn iddyn nhw beth maen nhw'n wneud i atal datgoedwigo ac effeithiau cymdeithasol



5 Ceisio

Ceisiwch am statws Ysgol Dim Datgoedwigo:

- Cyflwynwch adroddiad byr, prosiect dosbarth neu fideo mewn steil dogfen o'ch gweithgareddau, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, fel lluniau o ddigwyddiadau cymunedol neu erthyglau i'r wasg.
- **Dathlwch eich campau!** Rydych ar eich ffordd i ddod yn Ysgol Dim Datgoedwido a rydych chi'n gwneud gwahaniaeth yn barod i goedwigoedd, pobl a natur!